Site Stakeholder Group

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa 08.04.25**

1. Adroddodd y Cadeirydd ar y digwyddiadau y mae wedi rhoi sylw iddynt ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG).

2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ar y safle ers cyfarfod diwethaf yr SSG.

3. Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS) – Rhoddodd Mr Bill Hamilton, y Cyfarwyddwr Materion Allanol, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Ymgysylltu â'r Gymuned.

4. Adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) – Croesawyd Jonathon Jenkins yn ôl i'r SSG gan y Cadeirydd.

5. Adroddiad y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR) - Cyflwynodd Tanya MacLeod ei hadroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf – 31 Rhagfyr 2024. Yn ogystal, diolchodd i aelodau'r SSG am eu croeso a'u cefnogaeth dros y 3 blynedd diwethaf, gan nodi y bydd y grŵp mewn dwylo da gyda'i olynydd, Katie Chandler

6. Cyflwynodd Iwan Williams adroddiad diweddaru ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd.

7. Ni godwyd unrhyw gwestiynau yn ystod y Fforwm Holi ac Ateb.

Site Stakeholder Group

## Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
## Dydd Mawrth 8 Ebrill 2025, Swyddfa Hyb NRS Wylfa, Cemaes, Ynys Môn

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Aled M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd yr SSG |
| D Stuart Law | Cyfarwyddwr y Safle, NRS |
| Jonathon Jenkin s | NDA |
| Y Cynghorydd G O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Derek Owen | Cyngor Sir Ynys Môn (Is-gadeirydd) |
| Y Cynghorydd Jackie Lewis | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| TH Poole | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Steve Roberts | Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Safle – Pŵer Niwclear Horizon |
| Cath Pritchard | Ysgrifenyddiaeth SSG NRS |
| Tonya Hughes | Ysgrifenyddiaeth SSG NRS |
| Elin P. Jones | Arweinydd Cyfathrebu a Materion Economaidd-gymdeithasol NRS |
| Mair Jones | Arweinydd Materion Economaidd-Gymdeithasol NRS |
| Tanya McLeod | ONR |
| Katie Chandler | ONR |
| Cai Perrin | Cynrychiolydd Rhun ap Iorwerth, Aelod o'r Senedd |
| Alan Edwards | Cynrychiolydd Llinos Medi, Aelod Seneddol |
| Y Cynghorydd Gareth W Roberts | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cynghorydd Ken Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd JH Jones | Cyngor Cymuned Mechell |
| Iwan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gwen Thomas | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bill Hamilton | Cyfarwyddwr Materion Allanol - NRS |
| Jonathan Holland | Swyddog Cynllunio Brys NW |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Gwynfor Owen | Cyfieithydd – Cymen |
| Sydna Roberts | Cofnodydd – Cymen |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gordon Warren | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cynghorydd Liz Wood | Cyngor Tref Amlwch |
| Rhun ap Iorwerth | Aelod o'r Senedd |
| Llinos Medi | Aelod Seneddol Ynys Môn |
| David Wilby | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Peter Day | Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Llio Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |

**1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr absenoldebau uchod.

Croesawodd Jonathon Jenkins yn ôl o'r NDA ar ôl cyfnod ar secondiad. Yn ogystal, croesawodd Katie Chandler, sydd newydd ei phenodi'n Arolygydd ONR ar gyfer Wylfa, a diolchodd i Tanya McLeod am ei chyfraniad gwerthfawr i'r SSG, gan ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd. Yn ogystal, estynnodd groeso i'r Cynghorydd Ken Hughes, ar ôl iddo gael ei ailethol yn ddiweddar i etholaeth Talybolion, Cyngor Sir Ynys Môn.

**2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.10. 24**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.10.24, a rannwyd cyn y cyfarfod, fel cofnod cywir.

**3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol**

Ni godwyd unrhyw fater.

**4 Adroddiad Cadeirydd yr SSG**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr, fel a ganlyn:

- Mynegwyd pryder ynghylch adolygiad gwariant diweddar yr NRS a goblygiadau dyraniad gostyngol dros y blynyddoedd nesaf.
- Nododd fod 20 mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r NDA, a bod yr awdurdod yn bwriadu adolygu rôl a chyfrifoldebau'r SSG ar gyfer y dyfodol.

**5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa**

Cyflwynodd SL adroddiad cynhwysfawr a grynhoir fel a ganlyn:

**Ystadegau Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd**

Adroddodd SL ar yr ystadegau diogelwch fel a ganlyn:

- Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00.
- Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR) 0.00.
- Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 2,475 diwrnod (ar 02.04.25).

**Pobl**

Tîm Wylfa Un

- 184 o staff safle NRS.
- 77 NRS yn Hyb Wylfa.
- Yn ddiweddar, mae staff wedi cwblhau'r Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr Blynyddol – cyfradd gwblhau o 82%.

**Prentisiaid**

Mae'r cyfnod derbyn prentisiaid ar gyfer mis Awst 2025 wedi dechrau. 25 Ebrill 2025 yw'r dyddiad cau.

**Cynllunio Busnes yn Wylfa**

Amlinellodd SL y canlynol fel prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer 2025-2026:

- System troshaen drydanol – Mae hyn yn caniatáu gosod ceblau EOS newydd ar y Safle.
- Dadhalogi Cell Storio Sych 4 – Mae'r prosiect hwn yn cael ei ystyried.
- Cael gwared ag asbestos o adeiladau'r adweithyddion – Mae'r prosiect hwn yn amcangyfrif hyd a lled y gwaith yn y dyfodol.

- Datgomisiynu neuadd y tyrbin ac adeiladau ategol. Mae Wylfa wedi cyrraedd carreg filltir bwysig drwy dynnu'r holl bibellau (*air gapping*) yn fecanyddol o fewn pedwar twnnel ceblau dynodedig. Mae hwn yn gam tuag at wahanu a datgysylltu neuadd y tyrbin yn barhaol oddi wrth weddill y safle, gan ei pharatoi ar gyfer ei dymchwel.
- Dylunio ac adeiladu offer adfer Gwastraff Lefel Ganolraddol – mae cafn yr ardal llenwi fflasgiau bellach yn ddarfodedig, ac mae'r prosiect hwn yn datblygu'r sgôp ar gyfer ei waredu yn y pen draw.

**Y Diweddaraf am y Safle:**

**Rhaglen ddatgomisiynu**
Nodwyd bod pob prosiect ar y trywydd iawn. Fodd bynnag, gallai cyllid yn y dyfodol effeithio ar gynnydd pellach. Dangoswyd fideo byr i'r aelodau ar dynnu asbestos o adweithyddion, dan reolaeth Tîm Altrad ar y safle.

**Pontio ar gyfer gorsaf ynni dŵr Maentwrog**
Fe wnaeth y cyfrifoldebau rheoli ar gyfer Maentwrog symud o Wylfa i Drawsfynydd ddechrau mis Rhagfyr. Nod y cam strategol hwn yw gwella effeithlonrwydd gweithredol a rheoli adnoddau, oherwydd bod Trawsfynydd yn agosach at Faentwrog. Disgwylir i'r newid symleiddio gweithrediadau, gwella'r cydgysylltiad â gweithrediadau a chynnal rhagoriaeth barhaus yng Ngorsaf Ynni Dŵr Maentwrog. Bydd y tîm o 7 yn cael cymorth yn ôl yr angen gan Gyfarwyddwr Safle Trawsfynydd.

**Meysydd i'w Gwella**

- Canlyniadau Legionella Uchel: Mae trefn fflysio well ar waith ac yn cael ei hadolygu'n barhaus. Ble mae'r canlyniadau wedi dangos risg uwch, nid yw'r cyfleusterau hynny'n cael eu defnyddio mwyach. Nid oes unrhyw broblemau iechyd ar y safle ar hyn o bryd.
- Diraddiad a methiant offer: Mae dirywiad a chyrydiad rhai strwythurau wedi cael eu nodi. Bydd mwy o wyliadwriaeth, rheoli diffygion ac asedau yn helpu i flaenoriaethu gwaith atgyweirio neu waredu. Mae'r gwaith o adolygu a rhesymoli larymau blaenoriaeth hefyd yn mynd rhagddo.

Yn ogystal, cyfeiriodd SL at restr o brosiectau cyfathrebu cyson a rheolaidd (*drumbeat projects*) sy'n cael eu datblygu, gyda diwrnod wedi'i glustnodi ym mis Mai i hyrwyddo ymhellach.

**Arferion Da**
Adnewyddu Gatiau Diogelwch y Prif Fynediad - Syniadau Disglair.
Cwblhawyd gwelliannau hanfodol i'r Prif Gatiau i Gerbydau yn dilyn pryderon diogelwch a amlygwyd mewn adroddiad ar gyflwr asedau. Gwnaed y gwaith yn fewnol, gan arbed dros £300,000.

**Cynaliadwyedd**
Fel rhan o fenter cynaliadwyedd NRS, bydd pob safle'n rhoi cynlluniau carbon ar waith i leihau allyriadau. Ar gyfer Wylfa, mae hyn yn cynnwys:

- Prosiectau Effeithlonrwydd / Ynni.
- Meithrin gwybodaeth a rhannu arferion gorau.
- Dileu'r defnydd o danwydd ffosil lle bo hynny'n bosibl.
- Gwybod ein rhifau carbon.
- Caffael carbon isel.
- Cael gwared ar y cynhyrchion dur a choncrid mwyaf carbon-ddwys.

Gweithgareddau diweddar:

- Cynhaliwyd diwrnod gwirfoddoli i'r tîm gwastraff yn Nhyddyn Môn.
- Prynwyd sychwyr dwylo sy'n defnyddio llai o ynni i ddisodli'r rhai presennol yn y toiledau.
- Mae'r ardal llesiant awyr agored wrthi'n cael ei datblygu ac mae'r staff wedi pleidleisio dros y lleoliad y maent yn ei ffafrio.
- Mae'r fainc picnic dan do wedi cael ei phrynu.
- Mae'r gwaith cwmpasu ar gyfer hwyluso'r gwaith paratoi pridd yn mynd rhagddo.
- Mae amryw o arbedion effeithlonrwydd ynni ar y gweill sy'n ffocysu ar wresogi a goleuo.

**STEM**
Mae'r ymweliadau STEM yn gyfle i ymgysylltu, ysbrydoli a dangos i fyfyrwyr yr effaith y gallant ei chael ym maes ynni niwclear. Adroddodd SL ar amserlen ymweliadau 2024/2025, a llongyfarchodd staff Wylfa am eu hangerdd a'u hymroddiad wrth drefnu'r digwyddiadau.

**Cynllun economaidd-gymdeithasol Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS) 2024-2025**
**Wylfa ar daith**
Yn ddiweddar, aeth Wylfa ar daith o amgylch y cymunedau cyfagos i hyrwyddo llwyddiannau datgomisiynu diweddar. Cafodd ymwelwyr gyfle i gwrdd â'r tîm a dysgu mwy am genhadaeth NRS i ddatgomisiynu safleoedd niwclear ac ymchwil y genhedlaeth gyntaf ledled y DU yn ddiogel.

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau aml-flwyddyn**
**M-SParc**
Sicrhaodd Parc Gwyddoniaeth M-SParc £389,000 (£129,667 eleni) gan NRS dros y tair blynedd nesaf i barhau i ariannu'r Tîm Carbon Isel, yn dilyn cyllid blaenorol gan yr NDA. Dyma uchafbwyntiau cyflawniadau eu hadroddiad diwethaf:

- Sicrhawyd £624,500 i ddatgarboneiddio M-SParc.
- Trefnwyd digwyddiad yn ystod Wythnos Niwclear Senedd y DU (NWiP) gyda Chydweithrediad Rhanbarthau Niwclear y DU.
- Mae'r tîm yn datblygu cyfres o ddigwyddiadau - '*Egni Conversations*', gan gyflwyno cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid allweddol ar ystod o bynciau, gan gynnwys pryder am yr hinsawdd, diogelwch bwyd, a chydbwyso'r grid.
- Darparu cymorth i ysgrifennu ceisiadau drwy brosiect Uchelgais Gogledd Cymru.
- Gweithio tuag at gwblhau'r gwaith o drydaneiddio adeilad M-SParc, gan gyrraedd tua 85% o'r ffordd tuag at Sero Net, gan anelu i fod y parc gwyddoniaeth Sero Net cyntaf yn y DU.
- Parhau i gynnal digwyddiadau STEM. Yn ystod NWiP Cymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA), lansiodd M-SParc eu chwe fideo byr newydd yn esbonio pŵer niwclear.

**Prosiect Ymchwil Nodweddu Morol (MCRP) Morlais**

Uchafbwyntiau cyflawniadau eu hadroddiad diwethaf:

- Mae Morlais wedi llwyddo i sicrhau £8m o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r cysylltiad â'r grid yng Nghaergybi er mwyn allforio mwy o gapasiti pan fydd yn gwbl weithredol o'r flwyddyn nesaf ymlaen.
- Mae defnyddio bwi Marinus yn llwyddiannus, sydd wedi'i ffitio ag offer SIMA (System Dadansoddi a Monitro Integredig), yn gyflawniad sylweddol i MCRP. Bydd yr offer integredig yn caniatáu i Seiche a MarineSitu ddatblygu system Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol (EMMP) weithredol y gellir ei defnyddio ar dyrbin dan y môr yn 2025. Mae hyn yn mynd i'r afael â gofynion y rheoleiddiwr a bydd yn darparu data er budd y diwydiant.

**Mae prosiectau cymdogion da a gefnogwyd yn ddiweddar yn cynnwys:**

- Clwb Pêl-droed Bae Cemaes - £485 i brynu gasebos.
- Clwb Pêl-droed Hotspurs Caergybi - £900 i brynu offer hyfforddi a chit yn arddangos brand NRS ar gyfer y tîm dan 17 oed.
- Clwb Rygbi Llangefni - £900 i brynu hwdis yn arddangos brand NRS ar gyfer y tîm dan 12 oed.

Yn ogystal, dyrannwyd £9,680 i *Inspire* gan Sbarduno i gyflwyno sesiwn adolygu TGAU dwyieithog yn rhad ac am ddim yn ystod gwyliau'r Pasg.

Diolchodd y Cadeirydd i SL am ei adroddiad manwl a'i longyfarch ar lwyddiant Diogelwch y Safle a Phrentisiaethau.

**Sesiwn Holi ac Ateb**
Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gyflwyno unrhyw gwestiynau.

Roedd GOJ yn dymuno ailadrodd sylwadau'r Cadeirydd ynghylch y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn Wylfa i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi drwy ddarparu cyfleoedd addysgol a gwaith. Cyfeiriodd yn benodol at stori newyddion genedlaethol ddiweddar ar S4C yn tynnu sylw at y cyfleoedd hyn.
Yn ogystal, roedd yn dymuno llongyfarch Tom Williams, Cyfarwyddwr newydd Safle Trawsfynydd, ar ei benodiad diweddar, gan nodi ei fod yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Bodedern ar yr Ynys.
Diolchodd SL i'r aelodau am eu cefnogaeth, gan ganmol y gwaith rhagorol a wnaed gan Ffion Morris, y Rheolwr Peirianneg, a'i hangerdd wrth gefnogi'r bobl ifanc.

Diolchodd y Cadeirydd i SL am ei gyflwyniad.

**6 Diweddariad corfforaethol NRS**

Croesawyd Mr Bill Hamilton, Cyfarwyddwr Materion Allanol, i'r cyfarfod, a rhoddodd gyflwyniad byr ar Ymgysylltu â'r Gymuned

- Wylfa oedd y safle cyntaf i gynnal digwyddiad ymgysylltu 'manwl' gyda'i gymuned. Ymwelodd trelar Sioe Deithiol Gymunedol â Chemaes, Amlwch, Llanfechell a Llangefni.

- Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn hefyd gan *Thinks Insight*, gyda chyfranogwyr yn cael eu dewis o ardal o fewn radiws o 20 milltir i Wylfa. Gofynnwyd cwestiynau am ddatgomisiynu ac am safbwyntiau'r gymuned. Nodwyd bod cefnogaeth gref i bŵer niwclear newydd yn yr ardal, a'r farn bod yn rhaid i'r broses ddatgomisiynu gael ei chyflawni'n gadarn ac yn effeithlon. Nodwyd hefyd bod dealltwriaeth dda o NRS a'i rôl.
- Cynhaliwyd tri Grŵp Ffocws yn yr ardal a oedd yn cynnwys pobl o ystod eang o oedrannau. Y safbwyntiau allweddol oedd bod diogelwch ac ymgysylltu â'r gymuned yn hollbwysig.

Cyfeiriodd BH at yr ad-drefnu yn rheolaeth NRS, sydd wedi arwain at gael gwared ar haen o reolaeth. Nododd BH bod disgwyl i'r wybodaeth am yr Adolygiad o Wariant am y tair blynedd nesaf fod ar gael ym mis Mehefin 2025.
Diolchodd y Cadeirydd i BH am ei gyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan y rheini a oedd yn bresennol.

**Sesiwn Holi ac Ateb**
Holodd y Cynghorydd GWR a oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i orsaf lawn, yn hytrach nag adweithyddion modiwlar bach (SMR) yn unig. Sicrhaodd BH yr aelodau fod yr holl opsiynau'n cael eu trafod yn barhaus. Dywedodd y Cynghorydd GWR ei bod yn bwysig cydweithio gyda'r NRS, SSG, AS, AC a Chyngor Sir Ynys Môn tuag at orsaf niwclear lawn yn Wylfa.

Roedd y Cynghorydd DO yn dymuno ailadrodd pa mor bwysig oedd hi fod yr NRS yn hyrwyddo ei rôl yn y gymuned. Cytunodd BH fod ymgysylltu â'r gymuned yn hollbwysig, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i osod canolfannau gwybodaeth (gyda sgriniau cyffwrdd) mewn ardaloedd hygyrch yn lleol.

Dymunai'r Cynghorydd JL hysbysu'r aelodau bod yr Aelod Seneddol a'r Aelod o'r Senedd dros Ynys Môn yn codi cwestiynau'n barhaus ynghylch dyfodol Wylfa yng Nghaerdydd ac yn Llundain.

**7. Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear**
Croesawyd Jonathon Jenkins yn ôl i'r SSG gan y Cadeirydd.
Diolchodd JJ i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig, gan grynhoi ei adroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol gyda phapurau'r cyfarfod.

- Mae'r Adroddiad Blynyddol, sy'n nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn cenhadaeth yr NDA, o ddatgomisiynu safleoedd presennol yn ddiogel i baratoi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fwy, ar yr un pryd â rheoli gwastraff ymbelydrol ar gyfer y rhaglen bresennol a niwclear newydd, ar gael ar wefan yr NDA.
- Cynhaliwyd Arolwg Rhanddeiliaid ar-lein eleni a nodwyd bod nifer o unigolion wedi ei lenwi.
- Mae'r NDA yn dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed eleni, ac mae rhai digwyddiadau'n cael eu cynllunio ar gyfer hyn. Y bwriad yw cynnal cyfarfod o'r SSG ar bob safle, gyda chyflwyniad arbennig yn adolygu'r cynnydd dros yr 20 mlynedd diwethaf – bydd rhagor o fanylion yn dilyn.
- Mae gwaith paratoi ar y gweill ar gyfer Strategaeth V, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2026. Bydd y strategaeth yn destun ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2025 am gyfnod o 3 mis.

**Sesiwn Holi ac Ateb –** dim wedi'u derbyn.
Diolchodd y Cadeirydd i JJ am ei gyflwyniad.

**8 Diweddariad gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear**

Cyflwynodd Tanya MacLeod ei hadroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr 2024, a oedd wedi'i ddosbarthu yn flaenorol gyda phapurau'r cyfarfod. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd arolygiadau rheolaidd o Wylfa wedi rhoi sylw i'r canlynol:

- Rheoli gwastraff ymbelydrol.
- Datgomisiynu.
- Diogelwch.

Yn ogystal, diolchodd i aelodau'r SSG am eu croeso a'u cefnogaeth dros y 3 blynedd diwethaf, gan nodi y bydd y grŵp mewn dwylo da gyda'i olynydd, Katie Chandler.

**9 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd gan Iwan Williams, Rheolwr Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd Wylfa a Thrawsfynydd, ac roedd yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025. Nododd fod Kate Simpson wedi gadael Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ymddiheurodd ar ran David Wilby, oedd yn sâl. Gellir crynhoi ei adroddiad fel a ganlyn:

- Roedd gollyngiadau ymbelydrol i'r aer a'r dŵr o safle Wylfa o fewn y terfynau a ganiateir yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Roedd gollyngiadau anymbelydrol i'r dŵr hefyd o fewn y terfynau a ganiateir.
- Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ni chafwyd unrhyw ganlyniadau anarferol o ran y rhaglen monitro amgylcheddol.
- Derbyniwyd cais gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Tachwedd 2024 i newid canllawiau a manylebau Crynhoad o Ofynion Asiantaeth yr Amgylchedd (CEAR). Cyflwynwyd CEAR wedi'i ddiweddaru i Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Chwefror 2025.
- Ym mis Awst 2024, adroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar fater a ganfuwyd wrth fonitro gollyngiadau o Gell Storio Sych 5. Ymchwiliodd Cyfoeth Naturiol Cymru i'r mater gan gyflwyno adroddiad ym mis Hydref. Adolygwyd yr adroddiad, a daethpwyd i'r casgliad bod offer samplu wedi cael ei osod yn anghywir ar bibell, gan arwain at fwlch o 6 wythnos yn y data samplu. Cywirwyd y gwall cyn gynted ag y sylwyd arno.

**Sesiwn Holi ac Ateb –** dim wedi'u derbyn.
Diolchodd y Cadeirydd i IW am ei adroddiad a dymunodd wellhad buan i David Wilby.

**10 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored –** ni godwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**Unrhyw Fater Arall**

**11.** Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 3.25 pm.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 16 Hydref 2025**

Llofnod…………………………………………..

Y Cynghorydd Aled M Jones, Cadeirydd